

# The Electoral Commission

## **Llawlyfr y Cyfryngau**

**Etholiad Cyffredinol Senedd y DU**

**Dydd Iau 8 Mehefin 2017**

**Mai 2017**

# Cysylltiadau'r cyfryngau ac adnoddau

## Swyddfa'r wasg y Comisiwn Etholiadol

Llundain:

Cary Mitchell / Abigail Reynolds – Swyddogion Cyfathrebu

020 7271 0704

[press@electoralcommission.org.uk](mailto:press@electoralcommission.org.uk)

Caeredin:

Sarah Mackie – Uwch Swyddog

0131 225 0204

[smackie@electoralcommission.org.uk](mailto:smackie@electoralcommission.org.uk)

Caerdydd:

Laura Ward, Swyddog Cyfathrebu

02920 346 800

[lward@electoralcommission.org.uk](mailto:lward@electoralcommission.org.uk)

Belfast

Cahir Hughes – Uwch Swyddog

02890 894 023

[chughes@electoralcommission.org.uk](mailto:chughes@electoralcommission.org.uk)

Oriau y tu allan i'r swyddfa: 07789 920 414

Dilynwch ni ar [Twitter](#)

Hoffwch ni ar [Facebook](#)

Darllenwch ein [Blog](#)

**Noder: Lluniwyd [llawlyfr cyfryngau ar wahân](#) ar gyfer Gogledd Iwerddon**

**Mae fersiwn Saesneg o'r llawlyfr hwn hefyd ar gael.**

## Gwefannau

[www.comisiwnetholiadol.org.uk](http://www.comisiwnetholiadol.org.uk)

Mae gan wefan y Comisiwn adran benodedig ar gyfer newyddiadurwyr sy'n cynnwys newyddion a safbwyntiau'r Comisiwn Etholiadol - gan gynnwys ein datganiadau i'r wasg. Mae gan ein gwefan wybodaeth am roddion pleidiau gwleidyddol yn y cyfnod cyn yr etholiad ac ardal 'Canllawiau' gyda gwybodaeth i ymgeiswyr a'r rhai sy'n gweinyddu'r etholiad.

[www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio](http://www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio)

Dyma'r wefan lle gall y cyhoedd gofrestru i bleidleisio ar-lein. Mae'n gyflym ac yn hawdd i'w defnyddio. Ers ei lansio ym mis Mehefin 2014, mae miliynau o geisiadau i gofrestru i bleidleisio wedi cael eu cyflwyno. **Rydym yn annog ei defnyddio mewn cymaint o erthyglau â phosibl am yr etholiad fel bod eich darllenwyr yn gwybod ble y gallant wneud cais i gofrestru.**

Gallwch weld data byw ar faint o bobl sy'n defnyddio'r safle a faint o geisiadau a wnaed i gofrestru ar-lein ar [Ddangosfwrdd Cofrestru Pleidleiswyr Swyddfa'r Cabinet](#).

[www.dybleidlaisdi.co.uk](http://www.dybleidlaisdi.co.uk)

Mae'r wefan hon, a gaiff ei rhedeg gan y Comisiwn, yn ffordd hawdd i bleidleiswyr ddod o hyd i wybodaeth am gofrestru i bleidleisio ac am bleidleisio. Mae'n cynnwys cwestiynau cyffredin a chyfleuster i bleidleiswyr gael manylion cyswllt ar gyfer eu Swyddog Cofrestru Etholiadol lleol. Gall pobl hefyd lawrlwytho ffurflenni ar gyfer gwneud cais i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy.

## Cynnwys

1 Pwy yw pwy yn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU a'u cyfrifoldebau  
Tudalen 4

2 Amserlen yr etholiad Tudalen 6

## ADRAN A - Ymgeiswyr

3 Dod yn ymgeisydd Tudalen 8

4 Ymgyrchu yn yr etholiad Tudalen 10

5 Terfynau gwariant ar ymgyrchu a rheolau ar dderbyn rhoddion  
Tudalen 11

## ADRAN B - Pleidiau gwleidyddol

6 Terfynau gwariant ar ymgyrchu, rhoddion a'r hyn y mae'n rhaid rhoi  
gwybod amdano Tudalen 16

## ADRAN C - Ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau

7 Rheolau ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn Etholiad  
Cyffredinol Senedd y DU Tudalen 19

## ADRAN Ch - Ymgyrch yr etholiad

8 Darllediadau pleidiau gwleidyddol Tudalen 23

9 Twyll etholiadol Tudalen 24

## ADRAN D - Y pleidleisiwr

10 Cofrestru i bleidleisio Tudalen 28

11 Y broses bleidleisio Tudalen 32

## ADRAN Dd - Y broses gyfrif

12 Sut mae'r broses gyfrif yn gweithio a datgan y canlyniadau  
Tudalen 35

# 1 Pwy yw pwy yn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU a'u cyfrifoldebau

## 1.1 Y Swyddog Canlyniadau a'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol)

### Cymru a Lloegr

Mewn etholiad ar gyfer Senedd y DU yng Nghymru a Lloegr, swydd seremonïol yw swydd y Swyddog Canlyniadau ar y cyfan, sy'n Uchel Siryf neu'n Faer yr awdurdod lleol.

Dim ond y Swyddog Canlyniadau fydd yn derbyn y gwrit (er y gall ddirprwyo'r swyddogaeth hon). Gall hefyd ddewis cyhoeddi'r canlyniad ar ddiwedd y broses gyfrif a dychwelyd y gwrit. Cyfrifoldeb y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), sydd fel arfer yn un o uwch swyddogion yr awdurdod lleol, yw gweinyddu'r etholiad, yn cynnwys cynnal y cyfrif.

### Yr Alban

Yn yr Alban, mae'r Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiad Senedd y DU yr un person â'r Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiadau cyngor lleol. Felly, mae'n gyfrifol am bob agwedd ar weinyddu etholiad mis Mehefin 2017. Ni ddefnyddir y term Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn yr Alban.

**Drwy'r Llawlyfr hwn, defnyddir Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) i gyfeirio at y Swyddog Canlyniadau Gweithredol yng Nghymru a Lloegr a'r Swyddog Canlyniadau yn yr Alban.**

## 1.2 Swyddogion Llywyddu

Bydd Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) yn penodi Swyddogion Llywyddu i fod yn gyfrifol am orsafoedd pleidleisio. Bydd y dyletswyddau'n cynnwys trefnu cynllun yr orsaf bleidleisio, goruchwylio clerod pleidleisio, rhoi papurau pleidleisio, helpu pleidleiswyr, rhoi cyfrif am bob papur pleidleisio a sicrhau y caiff blychau pleidleisio eu cludo'n ddiogel i leoliad y cyfrif.

## 1.3 Swyddogion Cofrestru Etholiadol

Mae Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn gyfrifol am baratoi a chynnal y cofrestrau etholiadol a'r rhestr o bleidleiswyr absennol yn eu hardal. Rhaid iddynt sicrhau bod y cofrestrau etholiadol mor gyflawn a chywir â phosibl.

Yng Nghymru a Lloegr, mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yr un person â'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol). Yn yr Alban, nid yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yr un person â'r Swyddog Canlyniadau - mae'n berson a benodir gan yr awdurdod lleol neu gyfuniad o awdurdodau lleol.

## 1.4 Y Comisiwn Etholiadol

Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff annibynnol sy'n goruchwyllo etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU. Yn yr etholiad, rydym yn gyfrifol am:

- Iunio canllawiau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol), pennu safonau perfformiad a rhoi gwybod pa mor dda y maent wedi gwneud.
- Iunio canllawiau ar gyfer ymgeiswyr sy'n sefyll etholiad a'u hasiantiaid
- Iunio canllawiau ar gyfer pleidiau sy'n ymgyrchu yn yr etholiad
- Iunio canllawiau ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n ymgyrchu yn yr etholiad
- cofrestru pleidiau gwleidyddol
- cyhoeddi manylion ynghylch ble y mae pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr yn cael eu harian a sut y maent yn ei wario
- hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r etholiad a sut i gymryd rhan ynddo; a
- rhoi gwybod am y drefn o gynnal yr etholiad i Senedd y DU

## 2 Amserlen Etholiad Cyffredinol Senedd y DU 2017

<b>Digwyddiad</b>	<b>Dyddiad</b>
Cyfnod a reoleiddir ar gyfer gwariant ar ymgyrchu gan bleidiau gwleidyddol yn dechrau	Dydd Iau 9 Mehefin 2016
Cyfnod a reoleiddir ar gyfer gwariant ar ymgyrchu gan ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn dechrau	Dydd Iau 9 Mehefin 2016
<b>Diddymu'r Senedd</b>	<b>Dydd Mercher 3 Mai 2017</b>
Dechrau cyfnod a reoleiddir 'ymgyrch fer' ar gyfer gwariant ymgeisydd	Dydd Iau 4 Mai
Derbyn gwrit	Dydd Iau 4 Mai
Y diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi hysbysiad etholiad	4pm, ddydd Llun 8 Mai
Cyflwyno papurau enwebu	Rhwng 10am a 4pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad etholiad tan 4pm ddydd Iau 11 Mai
Y dyddiad cau ar gyfer dosbarthu papurau enwebu	4pm, ddydd Iau 11 Mai
Y dyddiad cau i ymgeiswyr dynnu'n ôl	4pm, ddydd Iau 11 Mai
Cyhoeddi datganiad ynghylch y personau a enwebwyd	Yn y rhan fwyaf o achosion, 5pm, ddydd Iau 11 Mai. Os gwnaed unrhyw wrthwynebiadau i enwebiadau, erbyn 4pm, ddydd Gwener 12 Mai fan bellaf. Ni ellir dosbarthu pleidleisiau post cyn yr amser hwn
Dyddiad cau ar gyfer yr adroddiad wythnosol cyntaf am roddion a benthyciadau cyn y bleidlais gan bleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau i'r Comisiwn Etholiadol	Dydd Mawrth 16 Mai. Y Comisiwn Etholiadol i gyhoeddi gwybodaeth ddydd Iau 18 Mai
Y dyddiad cau ar gyfer yr ail adroddiad am roddion a benthyciadau cyn y bleidlais i'r Comisiwn Etholiadol	Dydd Mawrth 23 Mai. Y Comisiwn Etholiadol i gyhoeddi gwybodaeth ddydd Iau 25 Mai
<b>Dyddiad cau i wneud cais i gofrestru i bleidleisio</b>	<b>Dydd Llun 22 Mai</b>
Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais bost	5pm, ddydd Mawrth 23 Mai
Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy (heblaw am ddirprwyon brys)	5pm, ddydd Mercher 31 Mai

Y dyddiad cau ar gyfer y trydydd adroddiad am roddion a benthyciadau cyn y bleidlais i'r Comisiwn Etholiadol	Dydd Mawrth 30 Mai. Y Comisiwn Etholiadol i gyhoeddi gwybodaeth ddydd Iau 1 Mehefin
Y dyddiad cau ar gyfer y pedwerydd adroddiad am roddion a benthyciadau cyn y bleidlais i'r Comisiwn Etholiadol	Dydd Mawrth 6 Mehefin. Y Comisiwn Etholiadol i gyhoeddi gwybodaeth ddydd Mercher 7 Mehefin
<b>Diwrnod pleidleisio</b>	<b>7am i 10pm, ddydd Iau 8 Mehefin</b>
Y tro olaf y gellir ailddosbarthu pleidleisiau post newydd yn lle papurau pleidleisio a ddifethwyd neu a gollwyd	5pm, ddydd Iau 8 Mehefin
Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am bleidlais argyfwng drwy ddirprwy	5pm, ddydd Iau 8 Mehefin
<b>Proses gyfrif etholiad</b>	<b>I ddechrau cyn gynted â phosibl ar ôl 10pm, ddydd Iau 8 Mehefin, a disgwylir i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi ddydd Gwener 9 Mehefin</b>
Y dyddiad cau ar gyfer y pumed adroddiad am roddion a benthyciadau cyn y bleidlais i'r Comisiwn Etholiadol	Dydd Mawrth 13 Mehefin. Y Comisiwn Etholiadol i gyhoeddi gwybodaeth ddydd Iau 15 Mehefin
Y dyddiad cau ar gyfer y chweched adroddiad am roddion a benthyciadau cyn y bleidlais i'r Comisiwn Etholiadol, sef yr un olaf	Dydd Iau 15 Mehefin. Y Comisiwn Etholiadol i gyhoeddi gwybodaeth ddydd Mawrth 20 Mehefin
Y dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno ffurflenni gwariant ymgeiswyr	Dydd Iau 13 Gorffennaf os caiff y canlyniad ei ddatgan ddydd Iau 8 Mehefin.  Dydd Gwener 14 Gorffennaf ar gyfer canlyniadau a ddatgenir ddydd Gwener 9 Mehefin
Y dyddiad cau ar gyfer pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sydd wedi gwario £250,000 neu lai i gyflwyno ffurflenni gwariant ar ymgyrchu i'r Comisiwn Etholiadol	Dydd Gwener 8 Medi
Y dyddiad cau ar gyfer pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sydd wedi gwario £250,000 neu lai i gyflwyno ffurflenni gwariant ar ymgyrchu i'r Comisiwn Etholiadol	Dydd Gwener 8 Rhagfyr



# ADRAN A - Ymgeiswyr

## 3 Dod yn ymgeisydd

### 3.1 Pwy all ddod yn ymgeisydd?

Rhaid i'r canlynol fod yn gymwys i unrhyw un sydd am sefyll yn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU, ar y diwrnod y cânt eu henwebu ac ar y diwrnod pleidleisio:

- bod yn 18 mlwydd oed o leiaf; a
- bod yn ddinesydd Prydeinig, yn ddinesydd yng Ngweriniaeth Iwerddon neu'n ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad

Nid yw'n ofynnol i ymgeisydd yn yr etholiad cyffredinol gael ei gofrestru i bleidleisio, na byw yn yr etholaeth Seneddol y mae am sefyll ynddi.

### 3.2 A oes unrhyw reolau sy'n atal ymgeisydd rhag sefyll?

Caiff ymgeisydd ei atal rhag sefyll i fod yn Aelod Seneddol os bydd un o'r canlynol yn gymwys, ar yr adeg y caiff ei enwebu ac ar y diwrnod pleidleisio:

- mae'n was sifil, yn aelod o'r heddlu neu'n aelod o'r lluoedd arfog
- mae'n destun gorchymyn cyfyngiadau methdaliad a wnaed gan lys yng Nghymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon (er nad yw methdaliad ynddo'i hun yn ei atal rhag sefyll); neu, mae ei ystâd wedi cael ei secwestro gan lys yn yr Alban ac nid yw wedi cael ei ryddhau
- mae wedi cael ei gollfarnu am drosedd garcharadwy a chaiff ei gadw yn yr ddalfa am fwy na blwyddyn
- mae wedi'i gael yn euog neu cofnodwyd ei fod yn euog o arfer etholiadol llwgr neu anghyfreithlon, y naill yn ystod y pum mlynedd neu dair blynedd ddiwethaf ar gyfer y llall

I gael canllawiau manylach am yr hyn sy'n anghymhwyso rhywun rhag sefyll i fod yn Aelod Seneddol, gweler canllawiau'r Comisiwn Etholiadol ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid, Rhan 1, tudalennau 3 - 5  
[http://www.electoralcommission.org.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0019/173017/UKPGE-Part-1-Can-you-stand-for-election.pdf](http://www.electoralcommission.org.uk/_data/assets/pdf_file/0019/173017/UKPGE-Part-1-Can-you-stand-for-election.pdf)

### 3.3 Sut mae rhywun yn dod yn ymgeisydd?

Gall ymgeiswyr ddewis sefyll etholiad ar gyfer Aelod Seneddol naill ai fel 'ymgeisydd plaid' neu fel 'ymgeisydd annibynnol'.

Y dyddiad cynharaf y gall rhywun ddod yn ymgeisydd yn swyddogol yw'r diwrnod y diddymir Senedd y DU - sef **dydd Mercher 3 Mai**. Fodd bynnag, gall darpar ymgeiswyr gael eu dewis gan eu plaid, neu gyhoeddi eu bwriad i sefyll cyn y dyddiad hwn.

Rhaid cyflwyno papurau enwebu ymgeisydd, ynghyd â'i ernes o £500, i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) erbyn 4pm, ddydd Iau 11 Mai er mwyn iddo allu sefyll.

### **3.4 Beth sy'n rhaid i rywun sydd am sefyll fel ymgeisydd plaid yn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU ei wneud?**

Rhaid i ddarpar ymgeiswyr plaid gyflwyno'r canlynol i'w Swyddog Canlyniadau (Gweithredol):

- ffurflen enwebu wedi'i chwblhau yn cynnwys
  - llofnodion 10 o etholwyr cofrestredig o'r etholaeth yn cefnogi'r enwebiad
  - ffurflen cyfeiriad cartref wedi'i chwblhau
  - cydsyniad i'r enwebu wedi'i gwblhau
- ernes o £500
- tystysgrif gan y plaid wleidyddol sy'n rhoi awdurdod i ddefnyddio enw'r plaid neu ddisgrifiad o'r plaid fel y'u cofrestrwyd gan y Comisiwn Etholiadol
- cais ysgrifenedig i ddefnyddio un o arwyddluniau cofrestredig y plaid (dewisol)

Gall ymgeiswyr sy'n sefyll dros plaid wleidyddol ofyn am gael defnyddio enw'r plaid neu ddisgrifiad ar y papur pleidleisio, ond ni all ofyn am y ddau. Yng Nghymru, caiff ymgeisydd ddefnyddio fersiwn Gymraeg, fersiwn Saesneg neu ddwy fersiwn enw'r plaid neu ddisgrifiad, cyhyd â'u bod wedi'u cofrestru gyda'r Comisiwn.

### **3.5 Beth sy'n rhaid i rywun sydd am sefyll fel ymgeisydd annibynnol yn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU ei wneud?**

Rhaid i ddarpar ymgeiswyr annibynnol gyflwyno'r canlynol i'w Swyddog Canlyniadau (Gweithredol):

- ffurflen enwebu wedi'i chwblhau yn cynnwys
  - llofnodion 10 o etholwyr cofrestredig o'r etholaeth yn cefnogi'r enwebiad
  - ffurflen cyfeiriad cartref wedi'i chwblhau
  - cydsyniad i'r enwebu wedi'i gwblhau
- ernes o £500.

Dim ond y gair 'Independent' (a/neu 'Annibynnol' yng Nghymru) y gall ymgeiswyr annibynnol ei ddefnyddio ar y papur pleidleisio; neu gallant ddewis peidio â chael disgrifiad.

### **3.6 Sut y gallwn wybod pwy yw'r holl ymgeiswyr?**

Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) perthnasol yn cyhoeddi'r rhestr lawn o ymgeiswyr sy'n sefyll. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn yn digwydd erbyn 5pm ddydd Iau 11 Mai. Fel arall, os na wnaed unrhyw wrthwynebiadau i enwebiadau, bydd yn cyhoeddi'r rhestr erbyn 4pm, ddydd Gwener 12 Mai fan bellaf. Er mwyn canfod sut a ble y bydd yn cyhoeddi'r rhestr hon, cysylltwch ag ef yn uniongyrchol.

## **4 Ymgyrchu yn yr etholiad**

#### **4.1 Beth gall ymgeiswyr ei ddweud am ei gilydd yn ystod yr ymgyrch?**

Fel sy'n wir am bob etholiad, mae'n anghyfreithlon gwneud datganiad ffug am gymeriad personol ymgeisydd er mwyn dylanwadu ar y broses o'i ethol. Mae rheolau am ddifenwi hefyd yn gymwys i ddeunyddiau etholiadol.

Gall yr heddlu ymchwilio i honiadau o'r drosedd etholiadol benodol o wneud datganiad ffug. Mater i'r llysoedd sifil yw difenwi.

Fel gyda phob etholiad, nid oes gan y Comisiwn Etholiadol unrhyw rôl reoliadol mewn perthynas â chynnwys deunydd ymgyrchu neu'r hyn y mae ymgeiswyr yn ei ddweud am ei gilydd.

#### **4.2 A oes unrhyw reolau etholiadol ynghylch deunyddiau ymgyrchu?**

Oes, yn ôl y gyfraith, rhaid i ymgeiswyr ddefnyddio "argraffnodau" ar eu holl ddeunydd ymgyrchu argraffedig.

#### **4.3 Beth yw "argraffnod"?**

Rhaid i'r holl ddeunydd argraffedig (h.y. posteri, hysbyslenni a thafleuni) gynnwys enw a chyfeiriad yr argraffydd a'r hyrwyddwr (y sawl a awdurdododd i'r deunydd gael ei argraffu). Rhaid i hyn ddigwydd fel y gall pobl fod yn glir ynghylch ffynhonnell y deunydd ymgyrchu. Mae'n drosedd peidio â chynnwys argraffnod ar ddeunydd etholiadol.

Mae'r Comisiwn Etholiadol hefyd yn argymhell bod ymgeiswyr, lle y bo'n bosibl, yn rhoi argraffnod ar eu deunyddiau electronig (h.y. gwefannau, e-byst a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol), ond nid yw hyn yn ofyniad cyfreithiol.

#### **4.4 A all ymgeiswyr weld y gofrestr etholiadol?**

Gallant. Mae gan ymgeiswyr (pan fyddant yn swyddogol wedi dod yn ymgeiswyr) yr hawl i gael copi, am ddim, o'r gofrestr etholiadol lawn a rhestrau o'r bobl sy'n pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy (rhestrau'r pleidleiswyr absennol) ar gyfer yr etholaeth y maent yn ymladd yr etholiad ynddi.

Dim ond er mwyn helpu gyda gwaith ymgyrchu y gall ymgeiswyr ddefnyddio'r gofrestr etholiadol lawn ac i gadarnhau bod y rhoddion a gânt yn dod o ffynhonnell a ganiateir.

#### **4.5 A yw ymgeiswyr yn cael dosbarthu tafleuni am ddim?**

Ydynt, mae gan ymgeiswyr hawl i anfon deunydd am ddim unwaith at etholwyr yn yr etholaeth. Gall hyn gynnwys:

- un cyfathrebiad etholiadol di-gyfeiriedig sydd hyd at 60 gram at bob cyfeiriad post, neu
- un cyfathrebiad etholiadol sydd hyd at 60 gram at bob etholwr

Bydd ymgeiswyr yn cysylltu â'r [Post Brenhinol](#) yn uniongyrchol i wneud y trefniadau ar gyfer eu taflenni.

## 5 Terfynau gwariant ar ymgyrchu a rheolau ar dderbyn rhoddion

### 5.1 Faint y gall ymgeiswyr ei wario ar eu hymgyrch etholiadol?

Ar gyfer etholiad cyffredinol 2015, roedd dau gyfnod a reoleiddir i ymgeiswyr y cyfeiriwyd atynt fel yr 'ymgyrch hir' a'r 'ymgyrch fer', pan oedd cyfyngiadau gwariant yn gymwys. Ar gyfer yr etholiad ar 8 Mehefin 2017, **dim ond** ymgyrch fer a geir.

Yn unol â Deddf Cynrychiolaeth y Bobl, bydd yr ymgyrch hir yn digwydd pan fydd Etholiad Cyffredinol Senedd y DU wedi'i alw a phan fydd y Senedd eisoes wedi bod yn eistedd ers 55 o fisoedd. Yn achos Etholiad Cyffredinol Senedd y DU 2017, mae'r Senedd wedi bod yn eistedd am lai na 55 o fisoedd.

Cyfrifir y terfynau gwariant ar gyfer pob ymgeisydd drwy adio at ei gilydd swm sylfaenol a swm atodol amrywiadwy, sy'n ystyried nifer yr etholwyr cofrestredig yn yr etholaeth a ymleddir.

### 5.2 Beth yw'r terfynau gwario?

Dyddiadau'r cyfnod a reoleiddir	Swm penodedig	Symiau amrywiadwy
Dydd Iau 4 Mai tan y diwrnod pleidleisio, Dydd Iau 8 Mehefin 2017	£8,700	6c fesul etholwr seneddol cofrestredig mewn etholaeth fwrdeistref ('burgh' yn yr Alban) <b>neu</b> 9c fesul etholwr seneddol cofrestredig mewn etholaeth sirol

\*Mae'r cyfnod a reoleiddir ar gyfer Etholiad Cyffredinol Senedd y DU yn dechrau **ar y diwrnod ar ôl y dyddiad** y byddwch yn dod yn ymgeisydd yn swyddogol ac yn dod i ben ar y diwrnod pleidleisio, sef 8 Mehefin 2017. Y dyddiad cynharaf y gallwch ddod yn ymgeisydd yn swyddogol yw'r diwrnod ar ôl diddymu Senedd y DU. Diddymir y Senedd ar 3 Mai 2017.

Os na chaiff bwriad unigolyn i sefyll fel ymgeisydd ei gyhoeddi cyn 3 Mai, bydd yr ymgyrch fer naill ai'n dechrau ar y diwrnod y bydd yn cyhoeddi ei fwriad, neu'r dyddiad y caiff ei enwebu fel ymgeisydd, p'un bynnag sydd gynharaf.

### 5.3 Sut mae ymgeiswyr yn gwybod faint o bobl sy'n byw yn yr etholaeth maent yn sefyll ynddi?

Mae nifer yr etholwyr Seneddol mewn etholaeth benodol yn seiliedig ar y gofrestr etholiadol fel y mae ar y dyddiad olaf ar gyfer cyhoeddi hysbysiad etholiad (4pm, ddydd Llun 8 Mai).

Gall ymgeiswyr gysylltu â'u swyddfa etholiadau leol i ofyn am y nifer ddiweddaraf o etholwyr er mwyn eu helpu i gynllunio eu gwariant yn ystod yr ymgyrch.

#### **5.4 Pa weithgareddau sy'n cyfrif tuag at y terfyn gwario?**

Mae gwariant ymgeiswyr yn cynnwys unrhyw dreuliau yr eir iddynt, p'un a yw hynny ar nwyddau, gwasanaethau, eiddo neu gyfleusterau, at ddibenion etholiad yr ymgeisydd yn ystod y cyfnod a reoleiddir, yn cynnwys y canlynol:

- hysbysebu o unrhyw fath - er enghraifft, posteri, hysbysebion mewn papurau newydd, gwefannau neu fideos YouTube
- deunyddiau digymell a anfonir at bleidleiswyr - er enghraifft, llythyrau neu daflenni
- costau cludiant
- cyfarfodydd cyhoeddus.
- costau staff - er enghraifft, cyflog asiant
- adeiladau - er enghraifft, swyddfa'r ymgyrch
- costau gweinyddol - er enghraifft, biliau ffôn, deunyddiau swyddfa a llungopïo

#### **5.5 A oes unrhyw weithgareddau nad ydynt yn cyfrif tuag at y terfyn gwario?**

Oes. Mae gweithgareddau nad ydynt yn cyfrif yn cynnwys y canlynol:

- talu ernes ymgeisydd
- unrhyw beth (heblaw am hysbysebion) sy'n ymddangos mewn papur newydd neu ar sianel ddarlledu drwyddedig
- cyfleusterau a ddefnyddiwyd am fod gennych hawl i wneud hynny fel ymgeisydd, megis ystafell gyhoeddus ar gyfer cyfarfod
- amser gwirfoddolwyr gan gynnwys amser a dreulir gan eich staff nad ydych yn eu talu amdano
- y defnydd o brif gartref rhywun
- y defnydd o gar personol rhywun neu gludiant arall
- cyfarpar cyfrifiadurol cyffredinol a brynir at ddefnydd personol

#### **5.6 A yw gwariant ar ymgyrchu gan blaid wleidyddol mewn etholaeth benodol yn cyfrif tuag at derfyn gwario ymgeisydd?**

Weithiau. Nid oes angen i wariant gael ei gyfrif yn erbyn terfynau gwario'r ymgeisydd a'r blaid. Bydd eitem o wariant fel arfer yn cael ei gynnwys mewn un categori neu'r llall:

- mae gwariant ar weithgarwch sy'n hyrwyddo'r ymgeisydd yn debygol o gyfrif tuag at derfyn gwario'r ymgeisydd - er enghraifft, llythyr a anfonir at etholwyr yn cyflwyno'r ymgeisydd a'i bolisiau lleol

- mae gwariant ar weithgarwch sy'n hyrwyddo'r blaid ac nid yr ymgeisydd yn debygol o gael ei gwmpasu gan y rheolau ar wariant ymgyrchu plaid - er enghraifft, hysbyseb papur newydd lleol sy'n cynnwys polisïau cenedlaethol a logo'r blaid, ond nad yw'n sôn am yr ymgeisydd lleol na materion lleol a dargedwyd yn benodol

Pan fydd plaid wleidyddol yn gwario arian yn hyrwyddo ymgeisydd penodol, yna bydd y gwariant hwnnw yn cyfrif tuag at derfyn gwario'r ymgeisydd.

### 5.7 Pa reolau sy'n berthnasol i hustyngau?

Gall unrhyw un drefnu hustyngau, sef digwyddiadau gyda'r nod o roi cyfle i'r cyhoedd glywed gan yr ymgeiswyr neu'r pleidiau sy'n sefyll etholiad yn eu hetholaeth.

Nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i'r sawl sy'n trefnu hustyngau wahodd pob ymgeisydd neu blaid sy'n sefyll mewn etholaeth. Fodd bynnag, gellir rheoleiddio gwariant ar hustyngau yn dibynnu ar y ffordd y cânt eu trefnu. Gall hyn ddigwydd pan fydd y trefnydd yn gwahodd neu'n allgau ymgeiswyr neu bleidiau yn ddedolus.

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi llunio canllawiau ar Hustyngau yma [http://www.electoralcommission.org.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0010/169480/sp-hustings-npc-ukpge.pdf](http://www.electoralcommission.org.uk/_data/assets/pdf_file/0010/169480/sp-hustings-npc-ukpge.pdf)

### 5.8 A oes terfyn ar roddion y gall ymgeisydd eu derbyn yn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU?

Nac oes. Fodd bynnag, dim ond rhoddion o arian, eitemau neu wasanaethau sy'n werth mwy na £50 sy'n cyfrif tuag at eu gwariant ymgyrchu o ffynhonnell a ganiateir y gall ymgeiswyr eu derbyn (gweler adran 5.9).

Rhaid i bob rhodd sy'n werth mwy na £50 gael ei chyhoeddi ar ffurflen gwariant yr ymgeisydd. Nid oes angen datgan rhoddion sydd â gwerth o £50 neu lai.

### 5.9 Pwy all roi rhoddion i ymgeiswyr?

Gall unrhyw un roi rhodd sy'n werth llai na £50 i ymgeiswyr.

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau mai dim ond o ffynhonnell a ganiateir y maent yn derbyn rhoddion sy'n werth mwy na £50. Rhaid i roddion nad ydynt o ffynhonnell a ganiateir gael eu dychwelyd at y rhoddwr o fewn 30 diwrnod. Ar ôl hynny, gall y rhodd gael ei fforffedu.

Diffinnir rhoddwyr a ganiateir yn y DU fel:

- unigolyn ar un o gofrestrau etholwyr y DU
- plaid wleidyddol sydd wedi'i chofrestru ym Mhrydain Fawr
- cwmni sydd wedi'i gofrestru yn y DU ac sy'n gwmni corfforedig yn yr UE ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- undeb llafur sydd wedi'i gofrestru yn y DU

- cymdeithas adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- cymdeithas lesiant sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- cymdeithas anghorfforedig sydd wedi'i lleoli yn y DU

Ar gyfer trosolwg o'r rheolau a rhagor o fanylion am yr hyn sy'n cyfrif fel rhodd a derbyn rhoddion, gweler canllawiau'r Comisiwn Etholiadol ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid, Rhan 3 Adran B:

[http://www.electoralcommission.org.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0019/214516/UKPGE-Part-3-Spending-and-donations.pdf](http://www.electoralcommission.org.uk/_data/assets/pdf_file/0019/214516/UKPGE-Part-3-Spending-and-donations.pdf)

### 5.10 Beth yw'r rheolau ar gyllido torfol?

Gall ymgeiswyr a phleidiau dderbyn rhoddion gan ddefnyddio gwefannau cyllido torfol, a reolir yn aml gan ddarparwyr trydydd parti, sy'n trosglwyddo'r rhoddion i'r ymgeisydd neu blaid heb godi ffi.

Dylai tudalennau cyllido torfol sicrhau bod rhoddwyr yn ymwybodol o'r rheolau ynghylch yr hyn a ganiateir a'r broses o ddatgan rhoddion a'r posibilrwydd y bydd enwau rhoddwyr yn ymddangos yn gyhoeddus. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd hefyd yw sicrhau ei fod yn casglu digon o wybodaeth i gwblhau ei rwymedigaethau adrodd yn cynnwys ei rwymedigaethau o ran sut yr ymdriniwyd â rhoddion gan roddwyr nas caniateir.

At ddibenion adrodd, dyddiad derbyn rhodd yw'r dyddiad y derbynnir yr arian gan y safle cyllido torfol trydydd parti. Os caiff rhodd ei derbyn fel hyn oddi wrth ffynhonnell nas caniateir, mae'n rhaid ei dychwelyd o fewn 30 diwrnod.

I gael rhagor o wybodaeth am gyllido torfol ar gyfer ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol, gweler ein taflen ffeithiau ar y canllawiau:

[http://www.electoralcommission.org.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0006/184236/Factsheet-Crowdfunding-UKPGE-2015-.pdf](http://www.electoralcommission.org.uk/_data/assets/pdf_file/0006/184236/Factsheet-Crowdfunding-UKPGE-2015-.pdf)

### 5.11 I ba raddau y gall pleidiau gwleidyddol ariannu eu hymgeiswyr?

Mae llawer o bleidiau gwleidyddol yn cynnal 'cronfeydd ymladd' lleol i'w hymgeisydd. Os yw'r gronfa wedi'i rheoli gan y blaid ac nid yr ymgeisydd, yna caiff rhoddion i'r gronfa eu trin fel rhoddion a roddir i'r blaid fel arfer.

Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod a reoleiddir, rhaid adrodd am unrhyw roddion a wnaed gan y blaid i ymgeisydd sy'n fwy na £50 ar ffurflen gwariant yr ymgeisydd.

### 5.12 I bwy y mae ymgeiswyr yn adrodd am eu gwariant a reoleiddir a phryd?

Rhaid i ymgeiswyr sy'n sefyll i fod yn Aelod Seneddol (neu eu hasiantiaid) gyflwyno eu ffurflenni gwariant ar ymgyrchu i'w Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) o fewn **35 diwrnod i ddatgan canlyniad yr etholiad.**

Dylai'r ffurflen gynnwys manylion rhoddion a gwariant yn ystod yr ymgyrch 'fer'.

Os na eir i unrhyw wariant, rhaid cyflwyno datganiad dim trafodion gan yr ymgeisydd neu ei asiant.



### **5.13 Beth sy'n digwydd os bydd ymgeisydd yn mynd y tu hwnt i'w derfyn gwario?**

Fel arfer, gwneir honiadau sy'n berthnasol i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, yn cynnwys gwariant ymgeisydd, i'r heddlu lleol perthnasol eu hystyried.

Er bod gan y Comisiwn Etholiadol ddyletswydd statudol i fonitro cydymffurfiaeth â rhannau o'r Ddeddf sy'n ymwneud ag ymgeiswyr ac asiantiaid, nid oes ganddo awdurdod cyfreithiol i ymchwilio i droseddau a rhoi cosbau ar eu cyfer o dan y Ddeddf.

## ADRAN B - Pleidiau gwleidyddol

### 6 Terfynau gwariant ar ymgyrchu, rhoddion a'r hyn y mae'n rhaid rhoi gwybod amdano

#### 6.1 Beth yw'r uchafswm y gall plaid wleidyddol ei wario ar ymgyrchu?

Ar gyfer pleidiau gwleidyddol sy'n ymladd Etholiad Cyffredinol Senedd y DU ym Mhrydain, y swm y gall plaid ei wario yw'r mwyaf o blith y canlynol:

**Naill ai:**

Rhan o Brydain	Terfyn gwario
Lloegr	£810,000
Yr Alban	£120,000
Cymru	£60,000

**neu**

£30,000 x nifer y seddi y mae eich plaid yn eu hymladd ym mhob rhan o Brydain. Mae gan bob rhan o Brydain derfyn ar wahân sy'n seiliedig ar nifer y seddi y mae eich plaid yn eu hymladd ym mhob ardal.

Rhan o Brydain	Nifer y seddi
Lloegr	533
Yr Alban	59
Cymru	40
<b>Cyfanswm:</b>	<b>632</b>

Os oes plaid yn ymladd pob un o'r 650 o etholaethau Seneddol ledled y Deyrnas Unedig yna byddai yn: £30,000 x 650 = £19.5 miliwn.

Er mwyn gweld sut y gallai'r terfynau gwario amrywio, yn dibynnu ar nifer yr etholaethau a ymleddir, darllenwch ein Canllawiau i bleidiau gwleidyddol, tudalennau 6 - 7:  
[http://www.electoralcommission.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0017/224810/UKPGE-2017-Political-Parties-guidance.pdf](http://www.electoralcommission.org.uk/data/assets/pdf_file/0017/224810/UKPGE-2017-Political-Parties-guidance.pdf)

Mae'r terfynau yn gymwys ar unrhyw wariant yr aethpwyd iddo yn ystod y cyfnod a reoleiddir (gweler 6.2). Mae'r terfynau hefyd yn gymwys i wariant yr aethpwyd iddo cyn y cyfnod a reoleiddir ar bethau (fel taflenni) a ddefnyddir wedyn yn ystod y cyfnod a reoleiddir.

## 6.2 Beth yw'r cyfnod a reoleiddir?

Dechreuodd y cyfnod a reoleiddir ar gyfer pleidiau gwleidyddol ddydd Iau 9 Mehefin 2016 a daw i ben ar y diwrnod pleidleisio, ddydd Iau 8 Mehefin 2017.

Er mwyn gweld sut mae'r cyfnodau a reoleiddir ar gyfer yr etholiadau gwahanol a gynhaliwyd yn 2017 yn effeithio ar wariant pleidiau, darllenwch ein Canllawiau i bleidiau gwleidyddol, tudalennau 4 - 5:

[http://www.electoralcommission.org.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0017/224810/UKPGE-2017-Political-Parties-guidance.pdf](http://www.electoralcommission.org.uk/_data/assets/pdf_file/0017/224810/UKPGE-2017-Political-Parties-guidance.pdf)

## 6.3 Pa weithgareddau sy'n cyfrif tuag at y terfyn gwario?

Caiff gwariant plaid ei ddiffinio fel eitemau, cyfleusterau a gwasanaethau a ddefnyddir i hyrwyddo'r plaid ei hun, neu i feirniadu pleidiau eraill, yn ystod y cyfnod a reoleiddir.

Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys y canlynol:

- hysbysebion plaid o unrhyw fath - e.e. baneri stryd, gwefannau a fideos
- deunydd digymell a anfonir at bleidleiswyr - er enghraifft, llythyrau neu daflenni
- y maniffesto a dogfennau eraill yn nodi polisiau'r plaid
- ymchwil i'r farchnad er mwyn canfod sut mae pobl yn bwriadu pleidleisio
- cynadleddau'r wasg plaid
- raliau a digwyddiadau pleidiol, gan gynnwys cost presenoldeb pobl, ac unrhyw nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau a ddarperir
- cludiant mewn cysylltiad â rhoi cyhoeddusrwydd i'r ymgyrch

## 6.4 A oes unrhyw weithgareddau nad ydynt yn cyfrif tuag at y terfyn gwario?

Oes. Mae gweithgareddau nad ydynt yn cyfrif yn cynnwys y canlynol:

- costau staff parhaol, cyfnod penodol neu dros dro lle mae gan yr aelod o staff gontract cyflogaeth uniongyrchol â'r plaid
- amser gwirfoddolwyr
- costau rhedeg swyddfa, heblaw am gostau sy'n uwch nag arfer oherwydd gwaith ymgyrchu, fel biliau ffôn
- costau teithio, bwyd a llety pobl tra byddant yn ymgyrchu, oni bai eich bod yn eu had-dalu
- treuliau a delir o arian cyhoeddus. Er enghraifft, costau diogelwch ar gyfer ymweliadau VIP
- deunydd a anfonir at eich aelodau yn unig
- Cynadleddau plaid
- Cylchlythyrau lleol am gynrychiolwyr etholedig neu ddarpar ymgeiswyr
- unrhyw beth y mae ymgeisydd yn ei ddatgan ar ei ffurflen gwariant

Ceir rhagor o wybodaeth am ymgyrchoedd pleidiau gwleidyddol yn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU 2017 yn ein canllawiau:  
[http://www.electoralcommission.org.uk/\\_media/guidance/party-campaigners/to-campaign-spend-rp.pdf](http://www.electoralcommission.org.uk/_media/guidance/party-campaigners/to-campaign-spend-rp.pdf)

### **6.5 Pryd y bydd pleidiau gwleidyddol yn adrodd am eu gwariant a reoleiddir?**

Y dyddiad cau i bleidiau gwleidyddol cofrestredig sydd wedi gwario £250,000 neu lai gyflwyno eu ffurflen i'r Comisiwn Etholiadol yw **8 Medi 2017**.

Y dyddiad cau i bleidiau gwleidyddol cofrestredig sydd wedi gwario mwy na £250,000 i gyflwyno eu ffurflen i'r Comisiwn Etholiadol yw **8 Rhagfyr 2017**.

### **6.6 A oes terfyn ar roddion y gall plaid wleidyddol eu derbyn yn y cyfnod cyn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU?**

Nac oes. Fodd bynnag, dim ond o ffynhonnell a ganiateir y gall pleidiau dderbyn rhoddion gwerth mwy na £500 tuag at eu hymgyrch (gweler adran 5.8).

### **6.7 Pryd y bydd y pleidiau gwleidyddol yn adrodd am eu rhoddion i'r Comisiwn Etholiadol?**

Rhaid i bencadlys canolog pleidiau gwleidyddol adrodd am unrhyw roddion a dderbynnir ganddynt bob chwarter sy'n fwy na chyfanswm o £7,500 i'r Comisiwn Etholiadol. Rhaid i unedau cyfrifo lleol adrodd am roddion sy'n dod i gyfanswm o fwy na £1,500.

**Ar ôl 3 Mai a hyd at ddiwedd y diwrnod pleidleisio, rhaid i bencadlys canolog pleidiau gwleidyddol gyflwyno adroddiadau wythnosol ar roddion a benthyciadau a gyhoeddir gan y Comisiwn Etholiadol.**

### **6.8 Beth yw dyddiadau cyhoeddi'r adroddiadau wythnosol ar roddion a benthyciadau?**

Rhaid i bencadlys canolog pleidiau gwleidyddol gyflwyno adroddiadau wythnosol ar roddion a benthyciadau yn nodi pa roddion a benthyciadau dros £7,500 a dderbyniwyd ganddynt ar ôl 3 Mai hyd at y diwrnod pleidleisio.

<b>Cyfnod adrodd</b>	<b>Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad</b>	<b>Y dyddiad y bydd y Comisiwn Etholiadol yn cyhoeddi rhoddion a benthyciadau</b>
3 Mai i 9 Mai	16 Mai 2017	Dydd Iau, 18 Mai 2017
10 Mai i 16 Mai	23 Mai 2017	Dydd Iau, 25 Mai 2017
17 Mai i 23 Mai	30 Mai 2017	Dydd Iau, 1 Mehefin 2017
24 Mai i 30 Mai	6 Mehefin 2017	Dydd Mercher, 7 Mehefin 2017
31 Mai i 6 Mehefin	13 Mehefin 2017	Dydd Iau, 15 Mehefin

		2017
7 Mehefin i 8 Mehefin	15 Mehefin 2017	Dydd Mawrth, 20 Mehefin 2017

# ADRAN C - Ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau

## 7 Rheolau ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU

### 7.1 Beth yw 'ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau'?

Unigolion neu sefydliadau yw ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n ymgyrchu yn y cyfnod cyn etholiadau, ond nad ydynt yn sefyll fel pleidiau gwleidyddol nac ymgeiswyr.

Er enghraifft, gall ymgyrchydd nad yw'n blaid fod yn sefydliad ymgyrchu, yn undeb llafur, yn elusen, yn grŵp ffydd, yn gwmni neu'n unigolyn. Fel mewn Etholiadau Cyffredinol blaenorol ar gyfer Senedd y DU, gall ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ymgyrchu er nad ydynt yn sefyll fel plaid wleidyddol neu ymgeisydd.

Rhaid i unrhyw ymgyrchydd nad yw'n blaid sy'n bwriadu gwario £20,000 yn Lloegr neu £10,000 yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir yn ystod y cyfnod a reoleiddir (9 Mehefin 2016 - 8 Mehefin 2017) gofrestru â'r Comisiwn Etholiadol a dilyn y rheolau ar ymgyrchu fel y nodir yn y ddeddfwriaeth.

Er mwyn gweld pa ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sydd wedi cofrestru â'r Comisiwn Etholiadol hyd yma, ewch i: <http://www.electoralcommission.org.uk/find-information-by-subject/political-parties-campaigning-and-donations/non-party-campaign-spending-and-donations-at-elections/register-of-non-party-campaigners>

### 7.2 Sut mae'r "Ddeddf Lobïo" yn effeithio ar ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau?

Mae ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n gwario arian ar weithgareddau ymgyrchu penodol y gellir ystyried yn rhesymol mai eu bwriad yw dylanwadu ar bleidleiswyr yn y cyfnod cyn etholiad wedi cael eu rheoleiddio ers i'r rheolau gael eu rhoi ar waith am y tro cyntaf yn 2000.

Mae Deddf Tryloywder Lobïo, Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau a Gweinyddu Undebau Llafur 2014 (y "Ddeddf Lobïo") wedi newid y rheolau a nodwyd yn PPERA, sy'n golygu'r canlynol:

- amrywiaeth ehangach o weithgareddau ymgyrchu yn amodol ar reolau newydd ar wariant
- terfynau gwario cenedlaethol is
- mwy o ofynion adrodd ar gyfer ymgyrchwyr cofrestredig
- trothwyon cofrestru uwch

Gallwch ddarllen adroddiad yr Arglwydd Hodgson ar effaith y "Ddeddf Lobïo" yn ystod Etholiad Cyffredinol 2015 [yma](#). Mae ein hymateb i'r adroddiad [yma](#).



### **7.3 Pa weithgareddau a gwmpesir gan y ddeddfwriaeth hon?**

Yn y gorffennol, roedd gwariant ar ddeunydd etholiadol yn cael ei reoleiddio. Mae'r rheolau newydd bellach yn cwmpasu gwariant ar ddeunydd etholiadol a:

- raliau cyhoeddus a digwyddiadau cyhoeddus eraill
- cynadleddau i'r wasg a digwyddiadau i'r cyfryngau
- gwaith canfasio neu ymchwil i'r farchnad - er enghraifft, defnyddio banciau ffôn er mwyn annog pobl i bleidleisio mewn ffordd benodol
- cludiant mewn cysylltiad â rhoi cyhoeddusrwydd i ymgyrch

### **7.4 Faint y gall ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau ei wario yn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU?**

Unwaith y bydd ymgyrchydd wedi cofrestru â'r Comisiwn Etholiadol, y swm y gall ei wario yn ystod y cyfnod a reoleiddir yw:

- £319,800 yn Lloegr
- £55,400 yn yr Alban
- £44,000 yng Nghymru
- £46,100 yng Ngogledd Iwerddon

Roedd terfynau gwario mewn grym hefyd yn ystod y cyfnod a reoleiddir ar gyfer yr etholiadau yng Ngogledd Iwerddon ar 2 Mawrth 2017. Mae'r cyfnod a reoleiddir ar gyfer Etholiad Cyffredinol Senedd y DU 2017 yn cwmpasu'r cyfnod yr oedd y terfynau gwario hyn mewn grym.

Felly, terfyn gwario Gogledd Iwerddon yn y tabl uchod yw cyfanswm y terfyn gwario ar gyfer etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon 2017 a'r terfyn gwario ar gyfer Etholiad Cyffredinol Senedd y DU 2017.

Yn ogystal, mae ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau wedi'u cyfyngu i wario uchafswm o £9,750 fesul etholaeth.

### **7.5 A yw'n rhaid i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau adrodd am roddion i'r Comisiwn Etholiadol?**

Fel pencadlysoedd canolog pleidiau gwleidyddol, dim ond o ffynonellau a ganiateir y gall ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau dderbyn rhoddion o fwy na £500 a rhaid iddynt adrodd am unrhyw roddion sy'n dod i gyfanswm o fwy na £7,500 i'r Comisiwn Etholiadol.

Cyflwynodd y ddeddfwriaeth hefyd ofynion adrodd cyn y bleidlais newydd ar gyfer ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau.



## 7.6 Beth yw'r gofynion adrodd cyn y bleidlais ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau?

Cyn i Etholiad Cyffredinol Senedd y DU 2017 gael ei alw, nid oedd unrhyw gyfnod a reoleiddir na therfyn gwario mewn grym ar gyfer ymgyrchu cyffredinol yn yr etholiadau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn 2017.

Nawr bod Etholiad Cyffredinol Senedd y DU wedi cael ei alw, mae'r 365 o ddiwrnodau cyn dyddiad yr etholiad (9 Mehefin 2016 - 8 Mehefin 2017) o fewn y cofnod a reoleiddir ar gyfer Etholiad Cyffredinol Senedd y DU. Bydd unrhyw wariant ar weithgarwch a reoleiddir a oedd yn bodloni'r prawf cyhoeddus a'r prawf diben mewn etholiadau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn ystod y cyfnod hwnnw bellach yn cyfrif tuag at derfyn gwario ymgyrchydd nad yw'n blaid yn y rhan berthnasol o'r DU yn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU. Mae hyn yn cynnwys gwariant mewn unrhyw is-etholiad yn ystod y cyfnod a reoleiddir.

Ceir rhagor o wybodaeth a diffiniad o'r 'prawf cyhoeddus a'r prawf diben' yn ein canllawiau ar dudalen 4 yma:

[http://www.electoralcommission.org.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0009/224955/UKPGE-2017-Overview-of-non-party-regulated-campaign-activity.pdf](http://www.electoralcommission.org.uk/_data/assets/pdf_file/0009/224955/UKPGE-2017-Overview-of-non-party-regulated-campaign-activity.pdf)

Rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau adrodd am roddion dros werth penodol a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod a reoleiddir i'r Comisiwn Etholiadol **cyn** y dyddiad pleidleisio. Gelwir hyn yn 'adrodd cyn y bleidlais'.

Rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau gyflwyno adroddiadau wythnosol ar roddion yn nodi pa roddion a benthyciadau dros £7,500 a dderbyniwyd ganddynt ar ôl 3 Mai hyd at y diwrnod pleidleisio.

Mae'r dyddiadau ar gyfer pryd y mae'n rhaid cyflwyno'r rhain a phryd y cânt eu cyhoeddi yr un fath â'r rhai a amlinellwyd ar gyfer pencadlysoedd canolog pleidiau gwleidyddol yn **Adran 6.8**.

## 7.7 Pryd y bydd yn rhaid i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau adrodd am eu gwariant i'r Comisiwn Etholiadol?

Y dyddiad cau i ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau sydd wedi gwario £250,000 neu lai gyflwyno eu ffurflen i'r Comisiwn Etholiadol yw **8 Medi 2017**.

Y dyddiad cau i ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau sydd wedi gwario mwy na £250,000 gyflwyno eu ffurflen i'r Comisiwn Etholiadol yw **8 Rhagfyr 2017**.

I weld y canllawiau a luniwyd gan y Comisiwn Etholiadol ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau, ewch i: <http://www.electoralcommission.org.uk/i-am-a/party-or-campaigner/non-party-campaigners/2017-elections>

## **7.8 Pa gymorth y mae'r Comisiwn Etholiadol wedi'i roi i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau er mwyn eu helpu i gydymffurfio â'r rheolau hyn?**

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi llunio [canllawiau](#) er mwyn helpu ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau i gydymffurfio â'r rheolau.

Mae'r Comisiwn hefyd wedi cyhoeddi [canllawiau penodol](#) i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n nodi'r terfynau gwario, y cyfnod a reoleiddir a'r dyddiadau cau ar gyfer adrodd mewn perthynas ag Etholiad Cyffredinol Senedd y DU yn 2017.

## **7.9 Sut mae'r Comisiwn Etholiadol wedi gweithio gyda'r sector gwirfoddol yn benodol?**

Lluniodd y Comisiwn Etholiadol [ganllawiau](#) wedi'u hanelu'n benodol at elusennau ar y cyd â'r Comisiwn Elusennau, Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban a'r Comisiwn Elusennau ar gyfer Gogledd Iwerddon.

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi llunio [taflenni ffeithiau ychwanegol ar ddulliau ymgyrchu cyffredin](#) ar ei wefan er mwyn helpu elusennau ac eraill wrth iddynt gynllunio eu gweithgareddau ymgyrchu.

<p>Mae ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn hanfodol ar gyfer democratiaeth iach ac mae'r Comisiwn Etholiadol yn eu hannog i gymryd rhan weithredol yn ystod y cyfnod ymgyrchu cyn yr etholiad cyffredinol. Pan gaiff swm sylweddol o arian ei wario ar ymgyrchu, mae'n briodol y gall pleidleiswyr weld pwy sy'n gwario'r arian hwnnw a pha ganlyniad y maent yn ymgyrchu drosto.</p>
---

# ADRAN Ch - Ymgyrch yr etholiad

## 8 Darllediadau etholiadol pleidiau

### 8.1 Sawl darllediad etholiadol y gall pleidiau gwleidyddol ei gael yn y cyfnod cyn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU?

Y darlledwyr fydd yn penderfynu sawl darllediad y gall plaid wleidyddol ei gael.

Bydd y pleidiau gwleidyddol yn talu am gynnwys y darllediadau etholiadol gan bleidiau ac yn eu cynhyrchu, a rhaid iddynt ufuddhau i'r gyfraith - er enghraifft o ran hawlfraint, difenwi, dirmyg, anweddustra ac annog atgasedd hiliol neu drais. Rhaid iddynt gydymffurfio â Chod Darlledu Ofcom neu Ganllawiau Golygyddol y BBC sy'n ymwneud â niwed a thramgwydd a thegwch a phreifatrwydd.

Bydd rhagor o wybodaeth am sut y dyrennir darllediadau etholiadol gan bleidiau ar gael oddi wrth Grŵp Cyswilt y Darlledwyr, sef y grŵp o ddarlledwyr sy'n trafod dyraniad y darllediadau hyn, ewch i [www.broadcastersliaisongroup.org.uk](http://www.broadcastersliaisongroup.org.uk).

Gellir gweld meini prawf drafft y BBC ar gyfer darllediadau etholiadol gan bleidiau yn: [http://www.bbc.co.uk/bbctrust/our\\_work/editorial\\_standards/party\\_political\\_broadcast\\_s.html](http://www.bbc.co.uk/bbctrust/our_work/editorial_standards/party_political_broadcast_s.html)

Gellir darllen rheolau Ofcom ar y darllediadau hyn yn: <https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/how-ofcom-is-run/committees/election-committee>

### 8.2 A oes rheolau ar ddiueddrwydd ar gyfer y cyfryngau yn ystod Etholiad Cyffredinol Senedd y DU?

Nid yw adroddiadau newyddion, eitemau nodwedd nac erthyglau golygyddol yn ddarostyngedig i gyfraith etholiadol, ac nid yw'r gyfraith yn gofyn iddynt fod yn ddiuedd. Mae didueddrwydd gwleidyddol yn y cyfryngau darlledu yn cael ei drin yn y canllawiau golygyddol sy'n berthnasol i'r darlledwr hwnnw:

- Mae canllawiau golygyddol y BBC ar ddarlledu yn ystod Etholiad Cyffredinol Senedd y DU ar gael yn <http://downloads.bbc.co.uk/guidelines/editorialguidelines/pdfs/2017juneelection.pdf>
- Mae darlledwyr masnachol yn ddarostyngedig i God Darlledu Ofcom, y gellir ei weld yn <https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/broadcast-codes/broadcast-code>

- Mae datganiad Ofcom ar newidiadau i'r rheolau ar ddiueddrwydd dyladwy, etholiadau a refferenda ar gael yn <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/broadcast-impartiality-accuracy-and-elections-rules-review>

Mae dadleuon teledu, radio ac ar-lein rhwng arweinwyr pleidiau hefyd yn fater i'r darlledwyr a'r papurau newydd perthnasol. Nid oes gan y Comisiwn Etholiadol rôl reoliadol mewn perthynas â dadleuon rhwng arweinwyr plaid.

## 9 Twyll etholiadol

Mae Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn nodi nifer o droseddau sy'n ymwneud â thwyll etholiadol. Byddai'r heddlu perthnasol ar gyfer yr ardal y cynhelir yr etholiad ynddi yn ymchwilio i unrhyw honiadau fod trosedd wedi cael ei chyflawni.

Mae gan bob heddlu swyddog Pwynt Cyswllt Unigol (a elwir yn SPOC) i arwain ar droseddau sy'n gysylltiedig ag etholiadau, a fydd yn rhoi cyngor i swyddogion yr heddlu lleol. Dylai unrhyw un sy'n gwneud honiad fod yn barod i roi datganiad i'r heddlu ac ategu eu pryderon. Gall pobl hefyd ddewis cysylltu â Tacle'r Tacle yn ddienw ar 0800 555 111.

**Dylai unrhyw un, gan gynnwys ymgeiswyr, gwleidyddion ac aelodau o'r cyhoedd, sydd â thystiolaeth fod twyll etholiadol yn digwydd, roi gwybod i'r heddlu ar unwaith, gan ddefnyddio'r rhif 101 ar gyfer adegau pan nad oes argyfwng oni fydd y drosedd wrthi'n cael ei chyflawni**

### 9.1 Beth yw'r mathau gwahanol o droseddau pleidleisio?

Mae troseddau'n cynnwys:

#### **Cambersonadu**

Cambersonadu - pan fydd rhywun yn pleidleisio fel rhywun arall (boed yn rhywun byw neu farw neu'n rhywun ffug), naill ai drwy'r post neu mewn gorsaf bleidleisio, yn bersonol neu fel dirprwy.

#### **Dylanwad gormodol / Bygylu**

Mae unigolyn yn euog o gael dylanwad gormodol os bydd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn defnyddio neu'n bygwth defnyddio grym, trais neu ataliaeth, neu achosi neu fygwth achosi anaf, difrod neu niwed er mwyn gorfodi neu gymell unrhyw bleidleisiwr i bleidleisio neu beidio â phleidleisio.

#### **Llwgwobrwyo**

Mae rhywun yn euog o lwgrwobrwyo os bydd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn rhoi unrhyw arian neu'n sicrhau unrhyw swydd ar gyfer unrhyw bleidleisiwr neu ar

ei ran, er mwyn ysgogi unrhyw bleidleisiwr i bleidleisio dros ymgeisydd penodol neu fel arall.

### **Troseddau'n gysylltiedig ag aml-bleidleisio a phleidleisio drwy ddirprwy**

Ceir amryw droseddau o ran aml-bleidleisio a phleidleisio drwy ddirprwy, gan gynnwys pleidleisio (boed yn bersonol, drwy'r post neu drwy ddirprwy) pan fo anghymwyster cyfreithiol i bleidleisio a phleidleisio fwy nag unwaith yn yr un etholiad.

### **Gwybodaeth gofrestru ffug**

Mae'n drosedd darparu gwybodaeth gofrestru ffug i Swyddog Cofrestru Etholiadol. Mae hefyd yn drosedd darparu gwybodaeth ffug mewn cysylltiad â chais am bleidlais bost neu bleidlais drwy ddirprwy. Mae gwybodaeth anwir yn cynnwys llofnod ffug.

### **Anrhegu**

Mae unigolyn yn euog o anrhegu os bydd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, naill ai cyn, yn ystod neu ar ôl etholiad, yn rhoi neu'n darparu unrhyw fwyd, diod, adloniant neu ddarpariaeth er mwyn dylanwadu'n llygredig ar unrhyw bleidleisiwr i bleidleisio neu beidio â phleidleisio. Mae a wnelo anrhegu â bwriad llygredig - nid yw'n gymwys i letygarwch arferol.

### **Datganiadau anwir ynghylch cymeriad personol neu ymddygiad ymgeisydd**

Mae'n drosedd gwneud neu gyhoeddi datganiad ffeithiau anwir am gymeriad personol neu ymddygiad ymgeisydd er mwyn effeithio ar ethol ymgeisydd mewn etholiad.

Nid yw datganiadau anwir nad ydynt yn ymwneud â chymeriad personol neu ymddygiad ymgeisydd arall yn anghyfreithlon o dan gyfraith etholiadol, ond gellid eu hystyried yn enllibus neu'n athrodus.

Mae hefyd yn anghyfreithlon gwneud datganiad anwir bod ymgeisydd yn tynnu ei enw'n ôl er mwyn hyrwyddo neu gaffael ethol ymgeisydd arall.

### **Datganiadau anwir mewn papurau enwebu**

Mae'n drosedd i ymgeisydd wneud datganiad anwir ar bapur enwebu, pan fydd yn gwybod ei fod yn anwir. Er enghraifft, os yw'n gwybod ei fod wedi'i anghymhwysio rhag sefyll etholiad ni chaiff lofnodi'r caniatâd i enwebu.

### **Deunydd cyhoeddusrwydd ymgyrch**

Mae rhai troseddau'n ymwneud yn benodol â deunydd cyhoeddusrwydd ymgyrch etholiadol. Rhaid i ddeunydd cyhoeddusrwydd ymgyrch etholiadol print gynnwys argraffnod, peidio ag edrych fel cerdyn pleidleisio a pheidio â chynnwys datganiad ffeithiau anwir ynghylch cymeriad personol neu ymddygiad ymgeisydd.

## 9.2 Pa mor hyderus y gall yr etholaeth fod ynghylch pleidleisio drwy'r post?

Mae pleidleisio drwy'r post ar gais yn fwy diogel ar ôl tynhau'r gyfraith yn 2006 ac fe'i defnyddiwyd gan 18.4% o'r etholaeth yn Refferendwm yr UE 2016.

Rhaid i bleidleiswyr drwy'r post ddarparu eu llofnod a'u dyddiad geni pan fyddant yn gwneud cais am bleidlais bost, a hefyd pan fyddant yn bwrw eu pleidlais bost. Caiff y ddau gofnod eu gwirio. Os na fydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn fodlon eu bod yn cyfateb, caiff y papur pleidleisio ei wrthod.

Atgyfnerthwyd y system ymhellach pan gyflwynwyd Cofrestriad Etholiadol Unigol yn 2014. Rhaid i unrhyw un sy'n gwneud cais i gofrestru i bleidleisio ddarparu ei ddyddiad geni a'i rif Yswiriant Gwladol yn gyntaf, cyn mynd ymlaen i ddarparu'r wybodaeth ychwanegol uchod os bydd am fwrw ei bleidlais drwy'r post.

## 9.3 Sut mae'r Comisiwn Etholiadol yn gweithio gyda phleidiau gwleidyddol i atal twyll pleidleisiau post?

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi cytuno gyda phleidiau gwleidyddol i atgyfnerthu ei [god ymddygiad](#) ar y modd yr ymdrinnir â cheisiadau am bleidleisiau post a pheynnau pleidleisio drwy'r post gan bleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr a chanfaswyr. Dywed y cod **na** ddylai pleidiau **nac** ymgeiswyr:

- **byth** helpu i gwblhau papur pleidleisio - yn lle hynny, dylai ymgeiswyr bob amser gyfeirio'r pleidleisiwr at staff y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) a fydd o bosibl yn gallu trefnu ymweliad cartref neu roi cymorth yn yr orsaf bleidleisio.
- **byth** drin na chymryd unrhyw bapur pleidleisio wedi'i gwblhau oddi wrth bleidleiswyr. Yn lle hynny, dylid annog pleidleiswyr i bostio eu pecyn pleidleisio drwy'r post eu hunain - fel arall, gellir cysylltu â staff y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) i drefnu iddo gael ei gasglu.

Gall rhai Swyddogion Canlyniadau hefyd nodi'r angen i ddatblygu a cheisio cytundeb i ddarpariaethau lleol penodol sy'n ategu telerau'r Cod y cytunwyd arno yn genedlaethol, er mwyn mynd i'r afael â risgiau lleol a nodwyd.

## 9.4 Beth sy'n digwydd os bydd plaid wleidyddol yn torri'r cod ymddygiad?

Er nad yw'r cod yn gyfreithiol gyfrwymol, mae'r Comisiwn Etholiadol yn gofyn i bleidiau gwleidyddol ymchwilio i unrhyw achosion o dorri'r cod y rhoddwyd gwybod amdanynt a chymryd camau i sicrhau na fydd yr un broblem yn codi eto. Mae hyn yn cynnwys cymryd camau disgyblu o bosibl yn erbyn aelodau'r blaid.

## 9.5 Pwy sy'n gyfrifol am roi cynlluniau ar waith i ddelio â thwyll etholiadol?

Y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) a'r Swyddog(ion) Cofrestru Etholiadol ar gyfer pob etholaeth sydd â'r prif gyfrifoldeb am sicrhau bod cynlluniau cadarn ar waith i atal a chanfod twyll. Rhaid iddynt weithio'n agos gyda SPOC eu heddlu lleol.

Cyhoeddwyd [canllawiau newydd](#) i gefnogi swyddogion yr heddlu a SPOCs wrth iddynt roi cynlluniau ar waith i atal a chanfod twyll etholiadol yng Nghymru a Lloegr. Mae'r canllawiau hyn, sy'n adeiladu ar waith a gynhaliwyd gynt gan y Comisiwn Etholiadol a Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO), bellach yn rhan o Arfer Proffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona ar gyfer heddluoedd yng Nghymru a Lloegr. Ceir canllawiau ar gyfer yr Alban [yma](#).

## 9.6 Beth mae'r Comisiwn Etholiadol yn ei wneud i atal twyll yn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU?

Mae'r Comisiwn yn gweithio'n agos iawn gyda Swyddogion Canlyniadau a heddluoedd lleol mewn ardaloedd lle bu honiadau o dwyll etholiadol mewn etholiadau blaenorol, a lle y gall fod angen rhoi mesurau ychwanegol felly ar waith. Rydym yn hyderus bod Swyddogion Canlyniadau a heddluoedd lleol yn yr ardaloedd hyn yn adeiladu ar eu profiad i roi cynlluniau cadarn ar waith, ac rydym yn eu cefnogi drwy rannu gwybodaeth ac enghreifftiau o arfer da er mwyn helpu i atgyfnerthu eu cynlluniau hyd at etholiadau mis Mehefin a thu hwnt i hynny.

Rydym wedi canolbwyntio ar y canlynol:

- eu cynlluniau ar gyfer delio â cheisiadau cofrestru a phleidleisio absennol (er enghraifft, sicrhau bod eiddo lle mae nifer fawr o bobl wedi gwneud cais i fod ar y gofrestr etholiadol yn cael eu gwirio)
- bod trefniadau ar waith gyda'r heddlu perthnasol ar gyfer nodi ac ymateb i dwyll etholiadol posibl
- bod hyfforddiant ar gael ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio ar y risg o gamberonadu

Mae'r Comisiwn hefyd yn gweithio gyda Taclo'r Tacle i sicrhau y gall pobl adrodd am bryderon ynghylch twyll etholiadol yn ddiennw drwy ffonio 0800 555 111. Mae hyn yn cynnwys gallu darparu gwybodaeth mewn iaith arall drwy wasanaeth cyfieithu.

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi llunio [canllawiau manwl](#) er mwyn helpu pob Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ledled Cymru, Lloegr a'r Alban i roi cynlluniau ar waith i atal a chanfod twyll etholiadol. **Ond, yr un mor bwysig, rhaid i ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol sicrhau nad yw eu cefnogwyr yn croesi'r llinell rhwng ymgyrchoedd cadarn a bywiog a thwyll etholiadol.**

# ADRAN D - Y pleidleisiwr

## 10 Cofrestru i bleidleisio

### 10.1 Pwy all gofrestru i bleidleisio yn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU?

Gall rhywun wneud cais i gofrestru i bleidleisio yn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU os yw'n 18 oed neu'n hŷn ar y diwrnod pleidleisio; a'i fod:

- yn ddinesydd Prydeinig
- yn ddinesydd Gweriniaeth Iwerddon sy'n byw yn y DU; neu
- yn ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad, sy'n byw yn y DU

Dinesydd cymwys o'r Gymanwlad yw rhywun sydd â chaniatâd i ddod i mewn i'r DU neu aros ynddi, neu nad oes angen caniatâd o'r fath arno/arni. Mae'r diffiniad o ddinesydd o'r 'Gymanwlad' yn cynnwys dinasyddion o Dirioogaethau Dibynnol Prydain a Thirioogaethau Tramor Prydain.

Mae rhestr o wledydd y Gymanwlad y gall eu dinasyddion fod yn gymwys i bleidleisio ar gael yn <https://www.yourvotematters.co.uk/can-i-vote/who-can-register-to-vote>

### 10.2 Sut y gall rhywun gofrestru i bleidleisio?

Gellir gwneud ceisiadau ar-lein yn [www.gov.uk/register-to-vote](http://www.gov.uk/register-to-vote) neu drwy gwblhau ffurflen Gofrestru. Bydd rhai Swyddogion Cofrestru Etholiadol hefyd yn cynnig y posibilrwydd o wneud ceisiadau i gofrestru yn bersonol a/neu dros y ffôn.

Er mwyn sicrhau bod y system gofrestru yn fwy diogel, mae'n rhaid i ymgeiswyr bellach roi eu dyddiad geni a'u rhif Yswiriant Gwladol fel rhan o'u cais. Caiff y rhain eu gwirio yn erbyn cofnodion a ddelir ar gronfa ddata yr Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn dilysu pwy yw'r person sy'n gwneud y cais. Gall pobl barhau i lenwi ffurflenni cofrestru papur os oes well ganddynt. Gallant gysylltu â'u swyddfa cofrestru etholiadol leol i ofyn am ffurflenni neu gallant eu lawrlwytho [yma](#)

Ceir gwybodaeth am sut y gall pobl yng Ngogledd Iwerddon gofrestru i bleidleisio yn [llawlyfr cyfryngau Comisiynydd Gogledd Iwerddon](#).

Nod y Comisiwn Etholiadol yw sicrhau bod pawb sy'n gymwys ac sydd am bleidleisio yn gallu gwneud hynny. Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru yw **dydd Llun 22 Mai 2017**. Dylai unrhyw un sydd heb gofrestru fynd i [www.gov.uk/register-to-vote](http://www.gov.uk/register-to-vote) i wneud cais cyn gynted â phosibl. Mae'n gyflym ac yn hawdd.

**Byddai'n ddefnyddiol petaech yn tynnu sylw at y dyddiad cau hwn ac yn rhoi dolen i'r wefan gofrestru ar-lein mewn unrhyw storïau perthnasol y byddwch yn eu cyhoeddi.**

**Os gwnaeth rhywun bleidleisio yn y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd ac nad yw ei amgylchiadau wedi newid - er enghraifft, nad yw wedi symud tŷ - bydd eisoes wedi cofrestru ar gyfer Etholiad Cyffredinol Senedd y DU ac nid oes angen iddo ailgofrestru**



### 10.3 Sut y gall dinasyddion y DU dramor gofrestru a phleidleisio?

Gall dinasyddion Prydeinig sy'n byw dramor gofrestru i bleidleisio ar-lein fel 'Pleidleiswyr Tramor' os ydynt wedi cofrestru i bleidleisio yn y DU yn ystod y 15 mlynedd diwethaf.

Ers cyflwyno'r broses gofrestru ar-lein, mae hefyd yn haws i ddinasyddion Prydeinig sy'n byw dramor wneud cais i gofrestru.

### 10.4 Sut mae aelodau o'r lluoedd arfog yn cofrestru ac yn pleidleisio?

Gall aelodau o'r lluoedd arfog a'u teuluoedd sy'n byw yn y DU ac sy'n annhebygol o newid cyfeiriad neu o gael eu hanfon dramor eleni wneud cais i gofrestru ar-lein fel etholwyr cyffredin.

Gall aelodau o'r lluoedd arfog a'u priod neu bartner sifil hefyd gofrestru fel 'Pleidleiswyr o'r Lluoedd Arfog'. Mae hyn yn eu galluogi i gael eu cofrestru am bum mlynedd mewn cyfeiriad sefydlog yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban, hyd yn oed os byddant yn symud o amgylch. Gall aelodau o'r lluoedd arfog wneud cais i gofrestru ar-lein fel 'Pleidleisiwr o'r Lluoedd Arfog' yn <https://www.gov.uk/register-to-vote-armed-forces>.

Gall aelodau o'r lluoedd arfog a'u priod neu bartner sifil sydd wedi'u lleoli dramor hefyd wneud cais i gofrestru drwy'r post neu drwy ddirprwy. Rhaid iddynt ystyried a oes digon o amser i bleidlais bost gael ei hanfon atynt ac iddynt ei dychwelyd at y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) cyn diwedd y cyfnod pleidleisio (ceir rhagor o wybodaeth yn Adrannau 11.5 a 11.6).

### 10.5 Pa gymorth a gynigir i bobl ag anabledd dysgu i'w helpu i gofrestru i bleidleisio?

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi llunio fersiwn [hawdd i'w darllen](#) o'r ffurflen gofrestru.

Gall pobl ag anabledd gael cymorth gan rywun arall i gwblhau cais - boed hynny yn ffurflen bapur neu ar-lein - ond rhaid i'r person sydd am gofrestru i bleidleisio wneud y datganiad. Yng Nghymru a Lloegr, gall rhywun sydd â'r atwrneiaeth berthnasol hefyd wneud y datganiad hwn ar ran yr ymgeisydd.

### 10.6 Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer cofrestru i bleidleisio?

Rhaid i rywun wneud cais i gofrestru erbyn hanner nos **ddydd Llun 22 Mai** ar gyfer yr etholiad ddydd lau 8 Mehefin. Fodd bynnag, rydym yn annog pawb i gofrestru cyn gynted â phosibl yn hytrach nag aros am y dyddiad cau.

### 10.7 A all rhywun gofrestru mewn dau gyfeiriad gwahanol?

Gall. Gall rhywun gofrestru mewn mwy nag un cyfeiriad, cyhyd â'i fod yn preswyllo ym mhob cyfeiriad. Fodd bynnag, dim ond unwaith y gall bleidleisio mewn etholiad. Er enghraifft, gall myfyrwyr gofrestru os dymunant yn eu cyfeiriad cartref a'u cyfeiriad yn ystod y tymor ond mae'n drosedd i bleidleisio fwy nag unwaith yn yr un etholiad.

### 10.8 Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais bost a phleidlais drwy ddirprwy?

Dim ond rhywun sydd wedi (neu a fydd wedi) cofrestru sy'n gymwys i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy.

- Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais bost yn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU yw **5pm, ddydd Mawrth 23 Mai**.
- Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy, heblaw mewn argyfwng, yw **5pm, ddydd Mercher 31 Mai**.
- Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais argyfwng drwy ddirprwy yw **5pm, ddydd Iau 8 Mehefin**.

### 10.9 A all carcharorion bleidleisio?

Gall carcharorion remand (y rhai na chafodd eu colffarnu a'u dedfrydu) bleidleisio. Ni all carcharorion euog a gafodd eu cadw yn y ddalfa oherwydd eu dedfryd bleidleisio.

### 10.10 Beth sy'n digwydd os nad oes gan rywun rif Yswiriant Gwladol?

Os na all rhywun ddod o hyd i'w gerdyn Yswiriant Gwladol, gall ddod o hyd i'w rif ar ei sliopiau cyflog neu ar lythyrau blaenorol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau neu Gyllid a Thollau EM (CThem). Efallai y gall myfyrwyr gael eu rhif oddi ar unrhyw gais am fenthyciad myfyrwyr. Gall pobl hefyd ddod o hyd i'w rhif Yswiriant Gwladol ar waith papur swyddogol fel llythyrau am fudd-daliadau neu gredydau treth.

Gall rhywun nad yw ei rif Yswiriant Gwladol ganddo ddal i wneud cais i gofrestru i bleidleisio, ond rhaid iddo roi'r rheswm pam na all ddarparu'r wybodaeth honno i'w Swyddog Cofrestru Etholiadol. Mae'n debygol y gofynnir iddo roi rhyw fath o brawf adnabod er mwyn gallu cofrestru i bleidleisio.

### 10.11 Pwy sy'n gyfrifol am lunio'r gofrestr etholiadol?

Swyddogion Cofrestru Etholiadol sy'n gyfrifol yn gyfreithiol am gynnal y gofrestr etholiadol ar gyfer eu hardal awdurdod lleol ac arwain yr ymdrechion i gael cymaint o bobl â phosibl ar y cofrestrau. Bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau hysbysebu er mwyn cyrraedd eu trigolion lleol a'u hannog i gofrestru i bleidleisio.

## 10.12 Sut y gall sefydliadau helpu i annog pobl i gofrestru i bleidleisio yn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU?

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn cynnal cylchlythyr cofrestru pleidleiswyr, [Y Gofrestr](#), y gall sefydliadau gofrestru ar ei gyfer er mwyn cael cymorth, cyngor ac adnoddau i godi ymwybyddiaeth ymysg eu rhwydweithiau ynghylch cofrestru i bleidleisio.

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn llunio cyfres o adnoddau y gall sefydliadau eu defnyddio a'u rhannu ar-lein. Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi gweithio [gydag amrywiaeth o sefydliadau partner](#) - o'r sector corfforaethol, cyhoeddus a gwirfoddol - er mwyn ceisio cyrraedd pleidleiswyr o grwpiau lle na cheir lefelau cofrestru digonol yn draddodiadol a'u hannog i gofrestru i bleidleisio. Ceir rhestr o'n sefydliadau partner [yma](#).

Mae gwybodaeth am bartneriaethau a dolenni i'r adnoddau ar gyfer annog pleidleiswyr i gofrestru ar gael ar-lein yma:  
<http://www.electoralcommission.org.uk/find-information-by-subject/electoral-registration>

## 10.13 Beth mae'r Comisiwn Etholiadol yn ei wneud i annog pobl i gofrestru i bleidleisio yn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU?

Lansiodd y Comisiwn Etholiadol ei ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd yn y DU ar 8 Mai, gan annog pobl i gofrestru i bleidleisio erbyn y dyddiad cau sef 22 Mai. Ceir hysbysebion ar y teledu, radio ac ar-lein ym Mhrydain; ac ar y radio, ar-lein, yn yr awyr agored ac mewn print yng Ngogledd Iwerddon, gan dargedu grwpiau lle na cheir lefelau cofrestru digonol yn benodol ledled y DU.

## 10.14 Pleidleiswyr tramor

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn ymrwymedig i sicrhau bod cynifer â phosibl o ddinasyddion y DU sydd bellach yn byw dramor ond sy'n dal yn gymwys i bleidleisio yn cofrestru fel rhan o'i weithgarwch ymwybyddiaeth y cyhoedd. Er mwyn cefnogi'r amcan hwn, mae'r Comisiwn:

- yn cynnal ymgyrch hysbysebu ar-lein i dargedu cynifer â phosibl o alltudion a'u hannog i gofrestru i bleidleisio
- yn defnyddio ei sianelau cyfryngau cymdeithasol er mwyn annog alltudion sy'n gymwys i bleidleisio i gofrestru a hefyd i gofrestru ar gyfer pleidlais drwy ddirprwy
- wedi rhoi adnoddau enghreifftiol i sefydliadau partner sydd â chysylltiadau â'r gymuned alltudion.

## 10.15 Aelodau o'r Lluoedd Arfog

Bob blwyddyn, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn, gyda chymorth y Comisiwn Etholiadol, yn cynnal ymgyrch er mwyn annog aelodau o'r lluoedd arfog i gofrestru i bleidleisio neu i ddiweddarau eu manylion cofrestru. Cynhaliwyd yr ymgyrch cyn yr etholiadau lleol ar 4 Mai. Roedd yn cynnwys nodyn i atgoffa pobl i gofrestru i bleidleisio a ymddangosodd ym mhecynnau cyflog holl gyflogeion y Weinyddiaeth Amddiffyn ym mis Mawrth.

Cyn yr Etholiad Cyffredinol hwn, mae'r Comisiwn Etholiadol yn gwneud y canlynol:

- cynnal ymgyrch hysbysebu ar-lein sy'n targedu aelodau o'r lluoedd arfog sydd wedi'u lleoli dramor
- gweithio gyda sianelau cyfathrebu mewnol y Weinyddiaeth Amddiffyn er mwyn cyfleu negeseuon cofrestru i aelodau o'r lluoedd arfog
- defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn annog ei bartneriaid sydd â chysylltiadau â chymuned y lluoedd arfog i rannu negeseuon cofrestru
- rhoi pecyn cymorth o adnoddau i Swyddogion Cofrestru Uned

## 11 Y broses bleidleisio

### 11.1 Pryd bydd y gorsafoedd pleidleisio yn agor?

Bydd y pleidleisio yn dechrau am 7am ac yn gorffen am 10pm.

### 11.2 Beth sy'n digwydd os bydd rhywun yn dal i sefyll mewn ciw yn aros i bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio am 10pm?

Bydd unrhyw bleidleisiwr sy'n cyrraedd yr orsaf bleidleisio cyn 10pm ac sy'n dal i aros i bleidleisio am 10pm yn gallu pleidleisio.

Newidiwyd y ddeddfwriaeth gan Lywodraeth y DU yn 2013 er mwyn galluogi hyn i ddigwydd yn dilyn argymhelliad gan y Comisiwn Etholiadol.

### 11.3 Pa ffyrdd gwahanol sydd i rywun bleidleisio?

Gall pobl ddewis pleidleisio mewn un o dair ffordd: yn bersonol, drwy'r post neu drwy ddirprwy.

### 11.4 Yn bersonol

- Gall pleidleiswyr cofrestredig fynd i'w gorsaf bleidleisio leol rhwng 7am a 10pm ar 8 Mehefin i fwrw eu pleidlais. Cyn y diwrnod pleidleisio, anfonir 'cerdyn pleidleisio' at bleidleiswyr sy'n cynnwys manylion am leoliad eu gorsaf bleidleisio.
- Dim ond yn eu gorsaf bleidleisio neilltuedig fel y'i nodir ar y cerdyn hwn y gall pleidleiswyr bleidleisio.

- Bydd staff gorsafoedd pleidleisio wrth law i egluro'r papur pleidleisio a sut i bleidleisio.
- Nid oes angen i etholwyr fynd â'r cerdyn pleidleisio gyda nhw i'r orsaf bleidleisio ond gall gwneud hynny gyflymu'r broses.

Er mwyn gweld beth y mae'n rhaid i bleidleiswyr yng Ngogledd Iwerddon fynd gyda nhw i'r orsaf bleidleisio, darllenwch [lawlyfr cyfryngau](#) y Comisiwn ar gyfer Gogledd Iwerddon.

### 11.5 Drwy'r post

Os na fydd pleidleiswyr am fynd i orsaf bleidleisio, neu os na fyddant yn gallu gwneud hynny, gallant wneud cais am bleidlais bost. Fodd bynnag, dim ond rhywun sydd wedi (neu a fydd wedi) cofrestru sy'n gymwys i bleidleisio drwy'r post.

Er mwyn pleidleisio drwy'r **post**, bydd angen i bleidleiswyr wneud cais am bleidlais bost cyn y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais bost sef 5pm, ddydd Mawrth 23 Ebrill.

- Caiff pecynnau pleidleisio drwy'r post eu hanfon yn uniongyrchol at bleidleiswyr cyn y diwrnod pleidleisio.
- Dylai pleidleiswyr gwblhau eu papur pleidleisio a rhoi eu llofnod a'u dyddiad geni ar eu datganiad pleidleisio drwy'r post, a'u dychwelyd i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) cyn 10pm ar 8 Mehefin.
- Ni chaiff pleidleisiau sy'n cyrraedd ar ôl 10pm ar 8 Mehefin eu cyfrif.
- Os na fydd pleidleiswyr yn caniatáu digon o amser i bostio eu pleidlais, gallant fynd â hi i orsaf bleidleisio yn eu hardal etholiadol rhwng 7am a 10pm ar y diwrnod pleidleisio.

### 11.6 Drwy ddirprwy

Gall pleidleiswyr hefyd wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy. Dyma ble maent yn gofyn i rywun y maent yn ymddiried ynddo i bleidleisio ar eu rhan, fel cymar neu aelod arall o'r teulu. Fodd bynnag, dim ond rhywun sydd wedi (neu a fydd wedi) cofrestru sy'n gymwys i bleidleisio drwy ddirprwy. Bydd hefyd angen i'r person sy'n gweithredu fel dirprwy gofrestru.

Er mwyn pleidleisio drwy ddirprwy, bydd angen i bleidleiswyr gwblhau a llofnodi ffurflen gais dirprwy a'i dychwelyd i'w swyddfa gofrestru etholiadol leol cyn 5pm, ddydd Mercher 31 Mai.

### 11.7 Sut y dylai pleidleiswyr gwblhau eu papur pleidleisio?

Yn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU, dylai pleidleiswyr roi un 'X' ar eu papur pleidleisio yn y blwch wrth ymyl yr ymgeisydd y maent am iddo fod yn Aelod Seneddol ar gyfer eu hetholaeth.

### **11.8 A ddylai pleidleiswyr ddefnyddio pensiliau neu beniau i fwrw eu pleidlais?**

Yn y DU yn draddodiadol, defnyddir pensiliau at ddibenion marcio papurau pleidleisio ac maent ar gael mewn gorsafoedd pleidleisio at ddefnydd y pleidleiswyr. Fodd bynnag, does dim i atal pleidleisiwr rhag defnyddio pen i farcio ei bleidlais - does dim gofyniad cyfreithiol i bapurau pleidleisio gael eu marcio â phensil.

Defnyddir pensiliau yn draddodiadol yn rhannol am resymau hanesyddol ac ymarferol: gyda pheniau inc mae risg bob tro y gallent sychu neu ollwng. Hefyd, gall peth o inc y marc y mae'r pleidleisiwr wedi ei wneud ar y papur pleidleisio drosglwyddo i ran arall pan gaiff ei blygu, gan arwain, o bosibl, at wrthod y papur am ei fod yn edrych fel petai'r pleidleisiwr wedi pleidleisio dros fwy o opsiynau na'r hyn a ganiateir.

Nid yw'r defnydd o pensiliau ynddo'i hun yn cynyddu'r tebygolrwydd o dwyll etholiadol. Mae deddfwriaeth wedi cynnwys camau diogelu penodol yn y broses, megis y gofyniad i seliau gael eu hatodi i flychau pleidleisio ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio. Yn ôl y gyfraith, mae gan ymgyrchwyr etholiad hefyd hawl i fod yn bresennol ar y cam hwnnw ac i atodi eu seliau eu hunain os byddant yn dymuno. Ar ddechrau'r cyfrif, gallant wyllo'r un seliau hynny yn cael eu torri.

Mae ymyrryd â phapurau pleidleisio yn drosedd ddifrifol ac os oes gan unrhyw un dystiolaeth yr ymyrrwyd â phapurau pleidleisio, dylent adrodd hyn i'r heddlu.

### **11.9 Beth yw'r rheolau ynghylch tynnu llun o bapurau pleidleisio?**

Mae'r gyfraith sy'n ymwneud â chael gwybodaeth mewn gorsafoedd pleidleisio a datgelu gwybodaeth o'r fath yn gymhleth. O ystyried y risg y bydd rhywun sy'n tynnu llun y tu mewn i orsaf bleidleisio yn torri'r gyfraith o bosibl, p'un a yw hynny'n fwriadol ai peidio, cyngor y Comisiwn Etholiadol yw na ddylid tynnu unrhyw luniau y tu mewn i orsafoedd pleidleisio.

Mae troseddau yn ymwneud â thynnu llun o bapurau pleidleisio hefyd yn dibynnu ar y math o bapur pleidleisio. Caiff papurau pleidleisio drwy'r post eu trin yn wahanol mewn cyfraith etholiadol, o gymharu â phapurau pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio. Gall rhywun sy'n pleidleisio drwy'r post dynnu llun o'i bapur pleidleisio drwy'r post ei hun a'i gyhoeddi (yn cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol).

Fodd bynnag, er y gall yr unigolyn sy'n pleidleisio drwy'r post ei hun gyhoeddi'r wybodaeth, pe bai rhywun arall yn ei ddarbwylllo neu'n ei annog i rannu'r wybodaeth hon, byddai'n cyflawni trosedd. Os oes unrhyw awgrymiadau neu honiadau y gallai hyn fod yn digwydd, dylid cyngori'r unigolyn sy'n gwneud y gŵyn i hysbysu'r heddlu am hyn.

## 11.10 Pa gyngor y mae'r Comisiwn Etholiadol yn ei roi i bobl sydd ag anabledd dysgu neu fynediad yn yr orsaf bleidleisio?

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi llunio [llawlyfr gorsaf bleidleisio](#) sy'n cynnwys canllawiau ar gyfer y Swyddog Llywyddu a chlercod pleidleisio i sicrhau y gall pob pleidleisiwr fanteisio ar y broses bleidleisio yn yr un ffordd. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ar yr hyn sy'n digwydd:

- os bydd pleidleisiwr anabl yn gofyn i'r Swyddog Llywyddu am gymorth i nodi'r papur pleidleisio ar ei ran
- os bydd etholwr dall neu rannol ddall yn gofyn am dempled i'w helpu i fwrw ei bleidlais
- os bydd rhywun ag anabledd dysgu am i'r broses o fwrw ei bleidlais gael ei hesbonio iddo

Mae Mencap hefyd wedi llunio [canllaw hawdd ei ddarllen ar bleidleisio](#) sydd ar gael ar wefan y Comisiwn.

## ADRAN Dd - Y Broses Gyfrif

### 12 Sut mae'r broses gyfrif yn gweithio ar gyfer Etholiad Cyffredinol Senedd y DU a datgan y canlyniadau

#### 12.1 Pwy sy'n gyfrifol am y cyfrif?

Y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) sy'n bennaf cyfrifol am gyfrif y pleidleisiau. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod Swyddogion Llywyddu yn cludo blychau pleidleisio o orsafoedd pleidleisio i leoliad y cyfrif mewn modd diogel ac amserol; a bod y sawl a gaiff eu recriwtio i gyfrif papurau pleidleisio wedi'u hyfforddi'n dda o ran sut y dylent gyflawni eu dyletswyddau.

#### 12.2 Pryd bydd y cyfrif yn dechrau?

Mae [Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010](#) yn nodi y dylai'r swyddog canlyniadau gymryd camau rhesymol i ddechrau cyfrif y pleidleisiau a fwriwyd ar y papurau pleidleisio cyn gynted ag y bo'n ymarferol o fewn **pedair awr** i ddiwedd y cyfnod pleidleisio. Bydd y cyfnod pleidleisio'n dod i ben am 10pm.

#### 12.3 Sut y byddaf yn gwybod pryd y bydd y cyfrif yn dechrau mewn etholaethau Seneddol gwahanol?

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi gofyn i bob Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) roi gwybod i'r Comisiwn pryd y bydd yn disgwyl dechrau dilysu papurau pleidleisio; a phryd y bydd yn disgwyl dechrau cyfrif y pleidleisiau.

## 12.4 Pwy sydd â hawl i fod yn bresennol yn y cyfrif?

Yn ôl y gyfraith, mae gan y bobl ganlynol yr hawl i fod yn bresennol yn y cyfrif:

- y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) a'i staff
- ymgeiswyr ac un gwestai
- asiantiaid etholiadol (neu is-asiantiaid ar eu rhan)
- asiantiaid cyfrif
- Cynrychiolwyr o'r Comisiwn Etholiadol
- arsylwyr achrededig
- unrhyw unigolyn arall a gaiff ganiatâd gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) i fod yn bresennol

Rhaid i aelodau o'r cyfryngau a ffotograffwyr sydd am fod yn bresennol mewn cyfrif gysylltu â'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) perthnasol i ofyn am ganiatâd i fod yn bresennol yn y cyfrif ac ar adeg datgan y canlyniadau

## 12.5 Sut y caiff y pleidleisiau eu cyfrif a'r canlyniadau eu cyhoeddi?

Mae pedwar cam i'r broses gyfrif.

### 1) Derbyn blychau pleidleisio

- Bydd blychau pleidleisio drwy'r post a blychau pleidleisio o'r gorsafoedd pleidleisio yn cyrraedd lleoliad y cyfrif ac yn cael eu cofnodi.

### 2) Dilysu

- Bydd staff yn cyfrif y papurau pleidleisio drwy'r post ac yn cadarnhau bod nifer y papurau pleidleisio yn y blychau pleidleisio drwy'r post yn cyfateb i'r niferoedd a gofnodwyd gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).
- Bydd staff hefyd yn cyfrif y papurau pleidleisio o bob gorsaf pleidleisio. Byddant yn cadarnhau bod nifer y papurau pleidleisio yn cyfateb i nifer y papurau a ddosbarthwyd, fel y cofnodwyd ar gyfrifon papurau pleidleisio'r Swyddog Llywyddu.
- Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn llunio datganiad yn dangos faint o bapurau pleidleisio a dderbyniwyd o gymharu â faint o bapurau pleidleisio a ddisgwyliwyd.

### 3) Cyfrif y pleidleisiau

- Bydd staff yn rhannu'r papurau pleidleisio yn ôl ymgeisydd.
- Bydd staff yn cyfrif nifer y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer pob ymgeisydd.
- Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn rhannu'r canlyniad dros dro ag ymgeiswyr a'u hasiantiaid. Ar y cam hwn, gall ymgeisydd neu asiant ofyn iddynt ailgyfrif y pleidleisiau. Gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wrthod y cais os bydd yn credu bod hynny'n afresymol.



#### 4) Datgan y canlyniad

- Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn cyhoeddi nifer y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer pob ymgeisydd ac yna'n cyhoeddi mai'r ymgeisydd â'r nifer fwyaf o bleidleisiau yw'r Aelod Seneddol etholedig ar gyfer yr etholaeth.

#### **12.6 Sut mae'r broses o agor pleidleisiau post yn rhan o'r broses hon?**

Mae'n debygol y cynhelir sawl sesiwn agor pleidleisiau post cyn y diwrnod pleidleisio, yn ogystal â'r diwrnod pleidleisio ei hun.

Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) roi rhybudd o 48 awr o leiaf yn nodi pryd a ble y cynhelir y sesiynau. Ym mhob sesiwn agor, bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn penderfynu a yw'r dyddiad geni a'r llofnod a ddarparwyd gan etholwyr ar eu datganiadau pleidleisio drwy'r post yn cyfateb i'r llofnod a'r dyddiad geni a ddarparwyd yn flaenorol ac sydd yn eu cofnodion. Os na fydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn fodlon eu bod yn cyfateb, caiff y bleidlais ei gwrthod.

Gall ymgeiswyr arsylwi'r broses neu benodi asiant pleidleisiau post i wneud hynny. Ni ddylai unrhyw un sy'n mynychu sesiwn agor geisio edrych ar farciau na rhifau adnabod ar bapurau pleidleisio, datgelu sut y cafodd papur pleidleisio penodol ei farcio na throsglwyddo gwybodaeth o'r fath a ddeilliodd o'r sesiwn.

Rhoddir pob papur pleidleisio dilys yn y blychau pleidleisio a'u storio'n ddiogel cyn eu dosbarthu i leoliad y cyfrif er mwyn eu cyfrif ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio.

#### **12.7 Beth sy'n digwydd gyda phapurau pleidleisio a ddifethwyd?**

Unwaith y bydd cam dilysu'r cyfrif wedi'i gwblhau, caiff y papurau pleidleisio eu rhannu yn ôl ymgeisydd a chaiff unrhyw bapurau pleidleisio amheus eu nodi. Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn cyflwyno dyfarniad ynghylch unrhyw bapurau pleidleisio amheus ym mhresenoldeb ymgeiswyr ac asiantiaid ac mae'r Comisiwn wedi rhoi canllawiau i'w helpu i wneud hyn.

Caiff papurau pleidleisio a ddifethwyd eu selio ar wahân i bapurau pleidleisio eraill a bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn cyhoeddi sawl papur pleidleisio a wrthodwyd ar ôl iddo gyhoeddi pwy sydd wedi'i ethol yn Aelod Seneddol.

#### **12.8 A ellir herio'r canlyniad ar ôl iddo gael ei gyhoeddi?**

Gellir cyflwyno deiseb etholiadol os bydd rhywun am herio canlyniad. Yn y rhan fwyaf o achosion, rhaid ei chyflwyno o fewn 21 diwrnod i ddatgan y canlyniad.

Ceir rhagor o wybodaeth am sut y gallai ymgeisydd herio canlyniad etholiad yn ein Canllawiau ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid, Rhan 6, tudalennau 5 - 6:  
[http://www.electoralcommission.org.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0016/173023/UKPGE-Part-6-After-the-declaration-of-results.pdf](http://www.electoralcommission.org.uk/_data/assets/pdf_file/0016/173023/UKPGE-Part-6-After-the-declaration-of-results.pdf)

